3.2.2. Nid yw Ynys Môn wedi cyflawni’r targedau ar gyfer nifer y staff cyffredinol na’r staff proffesiynol,

3.2.3. Mae nifer y benthycwyr actif ymhlith yr isaf yng Nghymru, er bod perfformiad wedi gwella.

3.2.4. Nid yw pob llyfrgell yn darparu rhaglen lawn o sesiynau sgiliau, gyda hyfforddiant sgiliau digidol ffurfiol yn anodd ei gefnogi mewn dau o'r llyfrgelloedd llai lle mae darpariaeth PC yn is.

3.2.5. Dim ond mewn 6 allan o 9 o lyfrgelloedd y darperir digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig, gyda darpariaeth wedi'i dargedu i ble mae galw neu angen a nodwyd.

## 4. ASESIAD MALD (Gweler : *Atodiad 2*)

4.1. Mae’r asesiad ffurfiol o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn 2017/18 yn cyfrifo bod yr Awdurdod yn cyflawni 12 o’r 12 hawl graidd yn llawn. O’r deg dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Ynys Môn wedi cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol, ac yn methu 1.

4.2. Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol

**4.2.1. Bodloni Angen Cwsmeriaid (QI 1-5)**
Yn gyffredinol, mae datblygiad unigol yn cael ei gefnogi'n dda, fodd bynnag nid yw pob pwynt gwasanaeth yn darparu rhaglen lawn o sesiynau sgiliau, oherwydd nifer y cyfrifiaduron. Darperir cefnogaeth iechyd a lles da. Mae lefelau hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol wedi cynyddu, gyda'r galw cynyddol am gymorth anffurfiol, yn enwedig gyda mynediad digidol a chwilio am swydd, yn ffactor.

4.2.2. **Mynediad a Defnydd (QI 6-8)**
Cyflawnir y targed ar gyfer mynediad hawdd i bwyntiau gwasanaeth, ond dim ond mewn 6 allan o 9 llyfrgell y darperir digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig gyda darpariaeth wedi'i dargedu at angen a nodwyd. Mae presenoldeb mewn digwyddiadau wedi gostwng, sy'n cael ei briodoli i lai o ddigwyddiadau. Mae niferoedd yr ymwelwyr wedi gostwng ychydig, tuedd a brofwyd mewn dwy ran o dair o Lyfrgelloedd Cymru. Mae benthygiadau llyfrau wedi gostwng, er bod dadlwytho electronig wedi cynyddu. Mae 'benthycwyr actif' hefyd wedi cynyddu er ei bod yn parhau i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru.

**4.2.3. Cyfleusterau a gwasanaethau (CI 9-12)**
Roedd gostyngiadau yng ngwariant Cyllideb Deunyddiau (cyllideb Llyfrau) yn 2017-18, er bod y targed ar gyfer caffaeliadau'r pen yn dal i gael ei fodloni ac mae'n uwch na'r lefel ganolrif. Gwariant adnoddau ar gyfer plant yw'r gwariant cyfrannol uchaf yng Nghymru. Mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi gostwng ychydig ond mae perfformiad dal yn gryf. Benthyciadau deunyddiau iaith Gymraeg y pen yw'r trydydd uchaf yng Nghymru. Mae lefelau defnyddio cyfrifiaduron cyhoeddus yn uwch na'r awdurdodau eraill.

4.2.4. **Arbenigedd a gallu (CI 13-16)**

Ni chyflawnwyd y dangosydd staff (Staff fesul pen a Staff Cymwys y pen). Er bod perfformiad yn uwch na'r lefel ganolrif yng Nghymru. Nodir effaith lefelau cynhwysedd ar y gwasanaeth, dylai'r strwythur staffio newydd, sydd i'w weithredu yn 18-19, alluogi gwelliant. Mae arweinyddiaeth gymwys yn ei le ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn datblygiad proffesiynol.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng yn 17-18 ond mae gwariant y pen yn parhau i fod uwch na lefel ganolrif. Nodir bod gostyngiad yn y costau gweithredol, y tu allan i staffio, yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn, gan adlewyrchu arbedion effeithlonrwydd cynyddol yn gorfforaethol ac yn adranol.

4.3. **Mae'r asesiad yn dod i'r casgliad:** Mae gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn wedi cynnal ei berfformiad yn gyffredinol yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gyda gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Mae'n cadw ffocws cryf ar wasanaethau i'r iaith Gymraeg a chefnogaeth i plant, ac mae'n dangos ethos partneriaeth ddefnyddiol, gan weithio gyda gwasanaethau eraill yng Ngogledd Cymru a darparwyr lleol. Fodd bynnag, bydd gweithredu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn arwain at ail-lunio'n sylweddol yr isadeiledd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, gyda newidiadau i'r model o ddarpariaeth mewn rhai llyfrgelloedd, ac i'r strwythur staffio. Mae'r fframwaith cyflenwi newydd hwn wedi'i ddylunio i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac yn hyn o beth bydd llwyddiant y mesurau hyn, yn nhermau perfformiad o dan y fframwaith, yn dechrau cael ei weld yn 2018-19.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Ang

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Ang

**8 – Atodiadau**

Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru Ynys Môn 2017/18
Atodiad 2: Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18: Ynys Môn

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth sylfaenol i ddefnyddio’r seilwaith TGCh a gynigir (gan gynnwys y rhwydwaith diwifr) a chymorth i gael gafael ar y rhychwant o adnoddau gwybodaeth electronig sydd ar gael. | 9 | 100% |
| Hyfforddiant i wella llythrennedd, llythrennedd gwybodaeth, rhifedd a sgiliau digidol. | 7 | 78% |
| Cymorth i ddefnyddwyr i gael gafael ar adnoddau e-lywodraeth lleol a chenedlaethol. | 9 | 100% |
| Rhaglenni/gweithgareddau datblygu darllenwyr ar gyfer oedolion a phlant | 9 | 100% |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Mae rhaglen lawn o sesiynau sgiliau ffurfiol wedi rhedeg yn y 7 llyfrgell fwyaf. Mae sesiynau sgiliau anffurfiol, cymorth llythrennedd a chymorth i gwsmeriaid yn digwydd ym nifer y cyfrifiaduron yn y llyfrgelloedd llai yn addas ar gyfer sesiynau ffurfiol, felly nid ydym wedi eu cwblhau'r ail elfen y dangosydd hwn. Rydym yn darparu rhaglen lawn me blaenorol.

| DASLlCC 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles | 2017-18 | % y cyfanswm |
|---|---|---|
| Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig: | | |
| Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru | 9 | 100% |
| Cynllun Llyfrau Llesol | 9 | 100% |
| Casgliad penodol ar iechyd a lles | 9 | 100% |
| Gwybodaeth am ffyrdd o fyw iachach ac ymddygiad iach – taflenni, llyfrau ac ati | 9 | 100% |
| Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles | 9 | 100% |

Mae’r targed hwn wedi'i gyrraedd.



| | |
|---|---|
| Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig: | |
| Grwpiau Darllen ar y Cyd (darllen yn uchel gyda’i gilydd) | 1 |
| Clybiau llyfrau (trafod llyfr penodol) | 4 |
| Canser Macmillan neu bartneriaethau eraill yn ymwneud â gwybodaeth iechyd | 6 |
| Hyrwyddwyr a gwasanaethau Dementia Gyfeillgar | 4 |
| Gweithgareddau ymwybyddiaeth iechyd meddwl | 9 |

Sylw'r Awdurdod:

Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn hwyluso 1 grŵp 'shared reading', mae 4 grŵp llyfr yn cael eu rhedeg yn y gwasanaeth llyfrgell gyda chymorth i grwpiau llyfrau allanol (cyflenw gennym ni cysylltiadau da gyda llawer o bartneriaid iechyd cymunedol, mae ymwelwyr iechyd yn cynnal sesiynau wythnosol yn ein llyfrgelloedd, a grwpiau iechyd meddwl l chyngor yn rheolaidd. Mae gennym ni hyrwyddwyr dementia cyfeillgar sydd wedi derbyn hyfforddiant ac mae gwasanaethau ni yn y broses o gael eu harchwilio a'u haddasu

| DASLlCC 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr | 2017-18 | Fesul 1,000 o'r boblgth |
|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu sesiynau hyfforddi defnyddwyr wedi’u trefnu ymlaen llaw gan y llyfrgell | 689 | 10 |
| Canran y mynychwyr a ddywedodd fod mynychu wedi’u helpu i gyflawni eu hamcanion | 98% | |

| | | |
|---|---|---|
| Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigwr hwn | Sampl o un wythnos neu fwy, wedi ei grosio i fyny | |
| Brasamcan o nifer y ffurflenni adborth a ddosbarthwyd | 60 | |
| Nifer y ffurflenni adborth sydd wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad hwn | 58 | |
| Nifer y cwsmeriaid sydd wedi cael cymorth drwy gael hyfforddiant anffurfiol yn ystod y flwyddyn | 20,146 | **289** |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys nodyn ar y dull i'w ddefnyddio i gyfrifo'r canlyniadau):

Mae hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu eto: mae cymorth yn amrywiol ac yn eang, fodd bynnag, help gydag e-byst, ddefnyddio e-resourses, ddefnyddio cyfryngau cymde
gyfran fawr o'r ffigur hwn, mae sgiliau llythrennedd gwybodaeth hefyd yn bwysig gyda'r galw yn gynyddu yn yr maes hon. Mae'r galw hefyd wedi cynyddu mewn cymorth an
dogfennau a chwilio am swydd. Dilynir gweithdrefnau samplu CIPFA gyda chyfrif ym mis Hydref am % a ddywedodd fod hyfforddiant wedi helpu i gyflawni eu nodau. Mae'r

| **DASLICC 6 Presenoldeb defnyddwyr yn nigwyddiadau'r llyfrgell** | **2017-18** | **Fesul 1,000 o'r boblgth** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer yn mynychu digwyddiadau a gweithgareddau wedi'u trefnu gan y llyfrgell | 13,124 | **188** |
| Nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sydd ar agor am 10 awr yr wythnos neu fwy sydd yn cynnig digwyddiadau a gweithgareddau i'r rheiny â gofynion arbennig | 6 | **67%** |

**Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:**

Sylw'r Awdurdod, yn cynnwys manylion o ddigwyddiadau:

Enghreifftiau o ddigwyddiadau yw Clybiau Swyddi Wythnosol, Grwpiau darllen gwrando, Amseroedd stori / Gweithgareddau i Ganolfan Addysg y Bont (Disgyblion ag Anghe
Gwybodaeth ar gyfer ABE (Sgiliau Sylfaenol), Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth sesiynau mewn partneriaeth gyda'r Gymdeithas Aphasic, clybiau codio a gweithgareddau pla
gostwng ychydig eleni. Mae hyn oherwydd angen gweithredu'r strategaeth gwasanaeth llyfrgell a chapasiti swyddi proffesiynol yn ystod y brosess.

Darparwyd digwyddiadau a gweithgareddau penodol ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig lle mae galw wedi bod neu mae 'na angen dynodedig, mae adnoddau yn y m
mewn 6 allan o 9 llyfrgell.



| **DASLICC 7 Lleoliad mannau gwasanaeth** | **2017-18** |
|---|---|
| Dwysedd y boblogaeth (person yr hectar) | 1.0 |
| % yr aelwydydd o fewn 3 milltir (neu 15 munud o amser teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus) i fan gwasanaeth sefydlog, neu o fewn ¼ milltir i arhosfan llyfrgell deithiol | **97%** |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Mae 67.4% o boblogaeth Ynys Môn yn byw o fewn 3 milltir i lyfrgell sefydlog. Mae'r ffigur hwn yn deillio o'r system GIS ac mae'n gadarn yn ystadegol. Cyfrifir y ffigwr hwn g
ffyrdd. 28.29% o gartrefi o fewn .25 o stop symudol.

| **DASLICC 8 Defnyddio'r llyfrgell** | **2017-18** | **Fesul 1,000 o'r boblgth** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau i lyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 286,138 | **4107** |
| Nodwch y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo hwn | Cyfuniad o'r dulliau hyn | |
| Cyfanswm nifer yr ymweliadau allanol i wefan llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn | 120,354 | **1,728** |
| Cyfanswm nifer y benthycwyr gweithredol yn ystod y flwyddyn | 7,633 | **110** |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm y nifer sy'n aelodau o'r llyfrgell | 13,207 | **190** |
| Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd gan oedolion | 169,204 | **2,429** |
| Cyfanswm nifer y llyfrau a fenthycwyd gan blant | 79,272 | **1,138** |
| Cyfanswm nifer y deunydd clyweledol a fenthycwyd | 7,256 | **104** |
| Cyfanswm nifer y deunydd electronig a lawrlwythwyd | 13,224 | **190** |

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys enwau unrhyw fannau gwasanaeth a rennir ac sy'n rhannu dulliau cyfrif, a dyddiad y glanhau diwethaf ar ddata aelodaeth):

Nid wyf wedi darparu ffigurau cymharol 2016-17 mewn rhai o'r categorïau hyn oherwydd mae rhai 17/18 yn cynnwys opsiynau cyfun ac felly nid ydynt yn cymharol.
Mae nifer yr aelodau o'r llyfrgell wedi gostwng yn ôl pob tebyg oherwydd gwell arferion data, fodd bynnag, mae nifer y benthycwyr actif wedi codi ychydig yn ystod 2017-18. glanhau yn: 8/2016.
Bu cynnydd mewn lawr lwythiadau electronig, sef patrwm yr ydym wedi'i gweld dros y blynyddoedd blaenorol. Hyrwyddwyd yr ardal hon yn drwm yn ystod digwyddiadau yn Genedlaethol a gynhaliwyd ar Ynys Môn.

| **DASLlCC 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol** | **2017-18** | **Fesul 1,000 o'r boblgth** |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer yr eitemau a dderbyniwyd | 16,987 | **244** |
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau (o DASLlCC 14) | £114,329 | **£1,641** |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.



| | |
|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau i blant | £ 35,567 |
| Ydy'r cyfanswm yn cynnwys gwariant ar Wasanaeth Llyfrgell Ysgol? | Ydi |
| Please indicated the amount included | £6,188 |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau i blant | **31%** |

Sylw'r Awdurdod

Mae'r gwasanaeth yn ystyried bod hwn yn lefel briodol o wariant ar stoc i blant ac pobl ifanc, mae'n cynnwys y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion sy'n darparu pecynnau prosiec
a hefyd ein fan llyfrgell i ysgolion sy'n ymweld ag ysgolion cynradd trwy gydol y flwyddyn. Nid yw stoc llyfrgelloedd ysgolion yn cael ei cadw ar wahan, mae ar gael ar gyfer c

| **DASLlCC 10 Adnoddau yn Gymraeg** | **2017-18** | **Fesul 1,000 o'r boblgth** |
|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | £ 13,155 | |
| Canran gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg | **11.5%** | |
| Gwariant am bob 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg | **£ 330.13** | |

Mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Caiff pob copi perthnasol o ddeunyddiau Cymraeg eu prynu mewn sawl copi. Mae'r gwasanaeth o'r farn bod y ddarpariaeth hon yn briodol ar gyfer y galw am stoc yr iaith G
dyblu'r lefelau prynu cyfredol i gyflawni'r Gwariant fesul 1,000 o boblogaeth sy'n siarad Cymraeg, byddai hyn yn arwain at stoc dros ben.

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 7 diwrnod calendr i wneud y cais | 4,972 | 73% |

Mae’r targed hwn wedi'i gyrraedd.

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y ceisiadau yr hysbysir y defnyddiwr eu bod ar gael o fewn 15 diwrnod calendr i wneud y cais | 6,028 | 88% |

Mae’r targed hwn wedi'i gyrraedd.

Mae goblygiadau rhannu catalog ar draws chwe awdurdod yn golygu bod yna heriau ychwanegol i gael llyfrau ar gais i'r darllenydd o fewn amser penodol. Mae'r targed 7 d logisteg, yn enwedig o ystyried nad oes fan dosbarthu bwrpasol yn gweithredu ar ran Uned Llyfryddiaeth Gogledd Cymru yn y Gogledd Ddwyrain fel y mae yn y Gorllewin. faniau sirol i gysylltu ei gilydd i gludo eitemau rhwng y siroedd.

Ers gweithredu System Rheoli Llyfrgell Cymru Gyfan, mae llyfrau yn teithio ar draws gogledd Cymru i fodloni gofynion cwsmeriaid. Er mwyn sicrhau cysondeb ag awdurdoc awdurdodau Llyfrgell Gogledd Cymru yn cofnodi nifer yr ceisiadau llwyddianus o fewn ein sir. Mae'r newid mewn modd adrodd hwn wedi arwain at nifer is o ceisidau yn cae sydd wedi'u bodloni o fewn 7 diwrnod calendr yn uchel ar 73% ac uwchlaw targed SLlCC.
Y ffigwr traws-sirol, gan gynnwys yr holl 6 awdurdod gogledd Cymru yw 58.82% am 7 diwrnod ac 84.19 am 15 diwrnod.

Os ydym yn cymharu â 16-17 maen bwysig nodi, oherwydd mabwysiadwyd LMS newydd yn Rhanbarth Gogledd Cymru ym mis Awst 2016 a'i effaith ar gyflwyno ceisiadau flwyddyn, mae'r perfformiad ar gyfer 16 -17 oedd ar gyfer y Chwarter Cyntaf (Ebrill - Mehefin 2016) fel sampl am y flwyddyn. Roedd y chwarter hwn yn rhydd o unrhyw new pellgyrhaeddol hwn ac felly mae'n rhoi darlun llymach o ymdrechion staff y llyfrgell i ddiwallu anghenion defnyddwyr.

| DASLlCC 13 Lefelau staffio a chymwysterau | 2017-18 | Fesul 10,000 o'r boblgth |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y staff (FTE) | 19.5 | 2.80 |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Sylw'r Awdurdod (gan gynnwys gwybodaeth am staff sy'n cael eu rhannu):

Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys staff a rennir yn uned lyfryddol TalNET (ar 22% o'u lefel staffio cyfanswm). Rydym eto wedi cynnwys oriau'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes, ariannu drwy'r Adran Addysg ac nid yw'n cael ei gyflogi o gyllideb y Gwasanaeth Llyfrgell; mae'r swydd hon yn rhan o'r Tîm Proffesiynol ac mae ganddi feysydd cyfrifoldeb | ogystal â'r rôl integredig dysgu gydol oes. Oherwydd natur annatod y swydd hon, teimlwn y dylid ei gynnwys yma.
Mae lefelau staffio wedi lleihau ychydig yn ystod y cyfnod adrodd hwn ac rydym wedi bod gyda 2 swydd wag am y flwyddyn lawn yn ogystal â 1 swydd broffesiynol wag am wedi'u heithrio o'r ffigurau hyn yn unol â'r canllawiau. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn is na'r safon lefel staffio sy'n anochel yn cael effaith ar y Gwasanaeth. Mae'r t wedi cymhlethu'r posibilrwydd o lenwi'r swyddi gwag, fodd bynnag, bydd y strwythur staffio newydd yn weithredol o 1/7/18.

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y staff sydd â chymwysterau cydnabyddedig yn gysylltiedig â llyfrgelloedd (FTE) (gan gynnwys meysydd cytras) | 3.9 | 0.56 |

Nid yw'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ychwanegwch unrhyw sylwadau isod:

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ynys Môn yn parhau i fod yn is na'r safon, ymddiswyddodd aelod o'r staff yn canol y flwyddyn waethygodd hyn y sefyllfa. Mae broses drawsnewid proffesiynol ar adegau. Roedd y ffigwr hwn yn cynnwys y Cydlynydd Dysgu Gydol Oes a 22% o staff TalNet (gweler y sylwadau uchod)

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y staff sydd â chymwysterau mewn meysydd cytras (FTE) | 0.0 | |

| | |
|---|---|
| | *72%* |

| | |
|---|---|
| | *89%* |

iwrnod yn heriol o ran trafnidiaeth a
Yn hytrach, maent yn dibynnu'n unig ar

dau eraill yng Nghymru, o 2017/18 mae
el eu cyfri. Ond mae'r nifer o geisiadau

yn ystod ail, trydydd a chwarter olaf y
vidiadau ac sgîl-effeithiau o'r trawsnewid



| | **2016-17 Fesul 10,000 o'r boblgth** |
|---|---|
| | *19.50* |

llyfrgellydd proffesiynol, sy'n cael ei
penodol o fewn y gwasanaeth yn

6 mis o’r flwyddyn. Mae'r swyddi hyn
proses drawsnewid ac ailstrwythuro

| | |
|---|---|
| | *4.40* |

d wedi cyfyngu capasity ein staff

Atodiad 1a

| **Awdurdod:** | **Ynys Môn** |
|---|---|

1. Yr effaith y mae llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn, neu grŵp o unigolion, yn ystod y flwyddyn. Disgrifiwch y defnydd a wnaethant o'r gwasanaeth, a'r gwahaniaeth y mae'r defnydd hwnnw wedi'i gael ar yr unigolyn neu'r grŵp dan sylw. Gellir cynnwys hyd at bedair astudiaeth achos (awgrymir 500 gair yr un).

   Nodwch os oes caniatâd i Lywodraeth Cymru ailddefnyddio a / neu gyhoeddi'r astudiaethau achos neu beidio: Nac oes

a) **Sesiynau Rhannu Rhigwm: Sesiynau Rhannu Rhigwm yn y Gymraeg i fabanod ac i blant dan oed ysgol.**

Cynhelir y sesiynau hyn yn wythnosol drwy'r flwyddyn mewn 4 o'n llyfrgelloedd. Cânt eu harwain gan ein tîm Plant a Phobl Ifanc ac maent yn cynnwys gweithgareddau y gellir eu hychwanegu ymlaen gan bartneriaid e.e. Ymwelwyr Iechyd a Chymraeg i Blant. Mae'r sesiynau hyn yn boblogaidd ymysg teuluoedd Cymraeg ond hefyd ymysg y teuluoedd hynny nad ydynt yn Gymraeg famiaith. Profwyd y sesiynau hyn i fod yn effeithiol mewn darparu gofod niwtral a hwyliog i rieni wella ac i ddysgu Cymraeg gyda'u plant, maent yn arbennig o effeithiol mewn cynorthwyo i godi hyder. Seilir y sesiynau ar rannu hwiangerddi, caneuon actol a llyfrau bwrdd. Maent yn ddifyr, yn rhyngweithiol ac yn swnllyd! Mae hwiangerddi'n wych ar gyfer datblygiad iaith a datblygu rhyngweithiad cymdeithasol.

Mae Mrs X wedi bod yn dod a'i merch i'r sesiynau wythnosol am flwyddyn bellach.

"Mae sesiwn Rhannu Rhigwm yn Llyfrgell Llangefni wedi bod yn llinell bywyd imi mewn sawl ffordd. Mae'n rhywle allaf fynd bob wythnos i dreulio amser a'm *merch* gan wrando ac ailadrodd rhigymau a straeon a chael hwyl. I mi, mae'r ffaith bod y sesiynau yn y Gymraeg wedi bod yn wych. Rwy'n dysgu Cymraeg ac rwy'n gallu cymryd rhan yn y sesiynau a dysgu gyda'm merch. Mae staff y Llyfrgell wedi fy nghynorthwyo i gysylltu â grŵp Cymraeg ac maent o hyd yn fy annog i siarad Cymraeg gyda nhw. Mae'r ddwy ohonom yn edrych ymlaen at y sesiynau ac at ein hamser yn y llyfrgell."

b) **Yr Agenda Unigrwydd**

Gwraig 55 oed yw *Mair* a ofynnais iddi ysgrifennu paragraff byr ynglŷn ag effaith y gwasanaeth llyfrgell ar ei bywyd. Siaradodd *Mair* gyda mi fel rhan o'n digwyddiadau ymgynghoriad Trawsnewid yn ystod haf y llynedd, sef pryd y clywais ei stori am y tro cyntaf.

"Collais fy ngŵr 18 mis yn ôl a chwympodd fy myd. Roeddwn wedi diswyddo'n wirfoddol o'r gwaith a dim ond megis dechrau mwynhau ein rhyddid newydd oeddem ni. Yn sydyn, roeddwn i ar fy mhen fy hun, mae fy nheulu i'n agos ond roeddwn i ar goll. Rwyf wastad wedi darllen ac wedi defnyddio fy llyfrgell ond mae'r 18 mis diwethaf wedi gwneud imi sylweddoli pa mor eithriadol o bwysig yw llyfrgelloedd yn ein cymunedau. Dyma le y gallwn fynd pe bawn yn teimlo'n unig, roedd gan y merched wastad wên ar eu hwynebau ac roedden nhw rhywsut yn

gwybod pa bryd yr oeddwn eisiau siarad a pha bryd mai dim ond galw i mewn yn sydyn oeddwn i. Nid oeddwn yn gallu darllen am sbel ond roeddwn i'n dal i alw i mewn i'r llyfrgell wrth basio (roeddwn yn ceisio cadw'n brysur). Un diwrnod, rhoddodd rhywun yn y llyfrgell lyfr yn fy llaw i. 'Stori Sydyn' oedd hi. Rho gynnig ar hon dywedodd hi, maent yr hyd delfrydol i beidio bod angen llawer o ganolbwyntio; roedd hi'n iawn, ac yn raddol daeth fy ngallu i ddarllen a mwynhau llyfr yn ôl ac rwy'n hynod o ddiolchgar am hynny. Mae'r llyfrgell wedi bod yn noddfa imi ac rwy'n falch iawn i allu mynegi pa mor bwysig ydynt, mae llawer o bobl unig yn ein cymunedau ac mae Llyfrgelloedd yn lleoedd prin y gall bobl fynd i siarad os dymunant wneud hynny, neu eistedd yn darllen papur newydd yn unig. Prin iawn yw lleoedd lle mae hyn ar gael heddiw yn ein byd aflonydd."

2. Ysgrifennwch mewn naratif sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru (awgrymir 500 - 1,000 gair).

**Gwasanaeth Llyfrgell Môn: Cyfrannu at ehangu blaenoriaethau a nodau strategol Llywodraeth Cymru**

**Dysgu** – Cefnoga gwasanaeth llyfrgell Môn bob math o astudiaeth anffurfiol yn ogystal â'r rheiny sy'n cwblhau cymwysterau ffurfiol. Mae gwasanaeth llyfrgell Môn yn cefnogi dysgu drwy'r holl gamau bywyd, o lyfrau i fabanod a rhannu rhigwm i sesiynau 'silver surfer'. Mae cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol oddi fewn a thu allan i leoliad llyfrgell yn darparu cyfleoedd cyfeillgar ar gyfer ystod eang o ddeilliannau dysgu.

**Darllen a llythrennedd** – Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn darparu mynediad at gyfoeth o lenyddiaeth, straeon a gwybodaeth sy'n ymrwymo ac yn cynhyrfu, rydym yn stocio llyfrau sy'n targedu plant, pobl ifanc ac oedolion sydd â lefelau llythrennedd isel ac yn gweithio a'n partneriaid i ddosbarthu sesiynau sgiliau sylfaenol. Mae Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion Môn yn hybu darllen am bleser i blant o oed ysgol gynradd ac yn cefnogi athrawon sydd â phecynnau o gopïau lluosog a chasgliadau thema i gefnogi'r cwricwlwm. Sefydlwyd grwpiau Gwrando ar Stori sy'n galluogi preswylwyr dall a phreswylwyr sy'n gweld yn rhannol i gysylltu â llyfrau ac i gymdeithasu mewn amgylchedd cefnogol.

**Lles y Gymuned** – Mae llyfrgelloedd yn ganolog i gymunedau Môn, sy'n darparu man cyfarfod i grwpiau lleol, darpariaeth gwybodaeth gymunedol ac ystod eang o weithgareddau i bob oedran. Ystyrir llyfrgelloedd fel gofod niwtral yn y gymuned sy'n agored i bawb.

**Sgiliau ac adfywiad economaidd** – Mae llyfrgelloedd yn cynorthwyo ysgogiad yr economi leol drwy ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gweithlu, drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor busnes a thrwy ddenu preswylwyr i'r trefi ac i'r pentrefi i ddefnyddio siopau a busnesau lleol. Golyga gweithio partneriaeth bod Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn cyfrannu at ddatblygiad sgiliau yn enwedig ym maes cynhwysiad digidol a llythrennedd digidol. Mae llyfrgelloedd hefyd yn ymddwyn fel hwb gwybodaeth i ymwelwyr a mynediad i'r we drwy ein cyfrifiaduron a'n cyswllt

di-wifr.

**Cynhwysiad a chyfranogiad digidol** – Cefnoga Llyfrgelloedd Môn breswylwyr i fynd ar-lein drwy fynediad Rhyngrwyd band llydan am ddim yn eu hadeiladau. Cynhelir rhaglen lawn o gyrsiau TGCh mewn partneriaeth â'r Cydlynydd Dysgu Gydol Oes. Mae gan bob llyfrgell gyfrifiaduron mynediad i'r cyhoedd, dyfeisiau symudol a chyfleusterau di-wifr.

**Iechyd a Lles** – Mae Gwasanaeth Llyfrgell Môn yn cyfrannu at yr agenda hwn mewn sawl ffordd – o weithio ag arbenigwyr iechyd, i ddanfon Llyfrau ar Bresgripsiwn, gan gynnig casgliadau arbennig sydd wedi eu hanelu at bobl sy'n byw â dementia, grwpiau rhannu darllen therapiwtig a grwpiau darllen yn uchel i breswylwyr dall a phreswylwyr sy'n gallu gweld yn rhannol. Rydym hefyd yn borth i wybodaeth iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth caeth i'r tŷ yn enghraifft graidd o'r buddion y gall darllen a'r gwasanaeth llyfrgell cyffredinol ei roi i unigolion. Cyfranna partneriaid at yr agenda hwn hefyd drwy ddefnyddio ein cyfleusterau, er enghraifft, mae Ymwelwyr Iechyd yn defnyddio llawer o'n llyfrgelloedd i gynnal eu sesiynau pwyso a chyswllt wythnosol.

**Hunaniaeth ddiwylliannol** – Mae gan lyfrgell Môn gasgliad hanes lleol helaeth, sy'n cysylltu lle ac iaith. Rydym hefyd yn gosod pwyslais mawr ar ein stoc iaith Gymraeg ac yn cynnal neu'n hwyluso nifer o grwpiau darllen iaith Gymraeg neu ddysgwyr Cymraeg. Mae digwyddiadau a gweithgareddau drwy'r flwyddyn yn cysylltu â'r thema hon ac yn hybu cyfleusterau'r gwasanaeth llyfrgell.

**Tlodi** – Chwaraea Gwasanaeth Llyfrgell Môn rhan allweddol mewn helpu'r rhai sy'n dlawd neu mewn perygl o fod yn dlawd, hybu llythrennedd; darparu mynediad am ddim i lyfrau ac i gyfleusterau, mynediad am ddim i TGCh ac i'r we, a mynediad am ddim i gyrsiau sgiliau digidol.

3. Rhowch ddatganiad byr ynghylch cyfeiriad y gwasanaeth llyfrgell yn y dyfodol a'r cynlluniau ar ei gyfer (awgrymir tua 200 gair).

Datryswyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith 18/12/2017 i:

Fabwysiadu Drafft Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022

Bod y newidiadau arfaethedig sydd yn Nrafft Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 i'w gweithredu fel a ganlyn:

- Cau Llyfrgell Cemaes, Llyfrgell Moelfre a Llyfrgell Niwbwrch, gan barhau i ymchwilio i weithredoedd lliniarol megis pwyntiau mynediad cymunedol a/neu gynyddu darpariaeth symudol yn yr ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan gau'r llyfrgelloedd.
- Datblygu model cydweithredol gyda Chanolfan Biwmares ynglŷn â Llyfrgell Biwmares.
- Derbyn ymrwymiad cadarn gan Gyngor Cymuned Llanfaelog ynglŷn â Llyfrgell Rhosneigr erbyn 31 Ionawr, 2018. Os na ddarperir ymrwymiad cadarn, mynd ymlaen i'w chau fel dywed y pwynt bwled cyntaf.

- Gweithredu Opsiwn C o fewn prisiadau Drafft y Gwasanaeth Llyfrgell (Atodiad 5 yn yr adroddiad) – cadw 22 awr neu ⅔ o staffio'r llyfrgelloedd sydd wedi cau yn y strwythur staffio i gynorthwyo lliniariad a chynnal perfformiad yn erbyn safonau'r WPLS.

Yn ystod ysgrifennu (Mehefin 2018), mae'r Gwasanaeth ar y trywydd cywir i weithredu'r argymhellion uchod:

Cau Llyfrgelloedd Niwbwrch a Moelfre erbyn diwedd Mehefin 2018 a symbylu lliniariad gweithredoedd yn y cymunedau hynny.
Canfuwyd datrysiad cymunedol gan Gyngor Cymuned Cemaes a phartneriaid, sydd wedi arwain at gadw'r llyfrgell yn agored am 12 mis pellach.

Trosglwyddo Adeilad llyfrgell Rhosneigr i Ganolfan Biwmares ar sail prydles a gweithredu gwasanaeth llyfrgell statudol o'r adeilad erbyn diwedd Mehefin 2018.

Trosglwyddo Adeilad llyfrgell Biwmares i Ganolfan Biwmares ar sail prydles a gweithredu gwasanaeth llyfrgell statudol o'r adeilad erbyn diwedd Awst 2018.

Rhoi'r strwythur staffio newydd ar waith o Orffennaf y 1$^{af}$ 2018.

Datblygwyd **Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022** i ymateb i heriau ac anghenion. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth i Wasanaeth Llyfrgell Môn ac mae'n gosod fframwaith drosglwyddo sydd â'r potensial i gyflawni anghenion Safonau Llyfrgelloedd, ac i ymateb i anghenion ein cwsmeriaid.

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ynys Môn

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Ynys Môn i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

## 1 Crynodeb gweithredol

Roedd Ynys Môn wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Ynys Môn wedi cyflawni 7 yn llawn, 2 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 1.

Ar y cyfan, mae gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Mae wedi cadw ffocws cryf ar wasanaethau plant a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg, a gwelir ethos defnyddiol gweithio mewn partneriaeth, gan gydweithio â gwasanaethau eraill yn y Gogledd a darparwyr lleol. Fodd bynnag, bydd gweithredu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn arwain at ailffurfio sylweddol ar yr isadeiledd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, gyda newidiadau i fodel y ddarpariaeth mewn rhai llyfrgelloedd, ac i'r strwythur staffio. Cynlluniwyd y fframwaith darparu newydd hwn i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac yn hyn o beth bydd modd dechrau gweld llwyddiant y mesurau hyn, a pherfformiad o dan y fframwaith, yn 2018-19.

- Cyflwynodd Ynys Môn ddwy astudiaeth achos yn dangos yr effaith gadarnhaol y mae'r gwasanaeth yn ei gael. Nid yw rhai o'r llyfrgelloedd yn gallu darparu rhaglen lawn o gefnogaeth sgiliau, ond mae'r ddarpariaeth yn gyffredinol dda, ac mae iechyd a lles wedi'u cefnogi'n dda.
- Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi codi, ond mae'n dal i fod ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r niferoedd sy'n cael cymorth drwy hyfforddiant anffurfiol hefyd wedi codi, gan adlewyrchu'r galw cynyddol am gymorth anffurfiol.
- Mae capasiti staff wedi effeithio ar nifer y gweithgareddau / digwyddiadau a gynhaliwyd, ac o ganlyniad mae nifer y mynychwyr wedi gostwng. Dim ond mewn llyfrgelloedd penodol y mae'r gwasanaeth yn gallu darparu gweithgareddau / digwyddiadau i bobl sydd â gofynion arbennig, a'r ddarpariaeth wedi'i thargedu i fynd i'r afael â'r galw ac anghenion a nodwyd.
- Gostwng y mae cyllidebau derbyniadau, ond mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n gryf o ran y gwariant ar stoc plant, ac wrth gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg.
- Mae lefelau'r staff cyffredinol wedi'u cynnal, ond mae swydd broffesiynol wag yn effeithio ar gapasiti mewn rhai meysydd. Dylai strwythur staffio newydd fod ar waith yn 2018-19.
- Bydd rhoi'r Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 ar waith yn arwain at ail-lunio'r gwasanaeth yn sylweddol, o fewn fframwaith gweithredu newydd. Bydd modd dechrau gweld effaith y newidiadau hyn yn 2018-19.

deunyddiau Ynys Môn yn 2017-18, er bod y targed ar gyfer derbyniadau fesul pen yn dal wedi'i gyrraedd ac yn uwch na'r canolrif. Mewn gwrthgyferbyniad mae'r gwariant ar adnoddau i blant wedi cynyddu, ac ar 31% o'r gyllideb deunyddiau dyma'r gwariant cyfrannol uchaf yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwario ar y gwasanaeth llyfrgell ysgol, ond mae stoc hefyd ar gael i'r canghennau eu defnyddio. Mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg wedi gostwng ychydig, ond mae'r perfformiad yn hyn o beth yn dal yn gryf, gyda benthyciadau Cymraeg yr uchaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron wedi'i gynnal gan mwyaf, gyda'r lefelau defnydd arnynt (yn 67%) eto yn rhagori ar rai awdurdodau eraill. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er bod y ffigyrau yn hyn o beth yn cynnwys ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn yr awdurdod yn unig, ac nid y rhai wedi'u cyflenwi trwy drefniadau i rannu stoc ledled chwe awdurdod y Gogledd.

### 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Nid yw lefelau'r staff cyffredinol wedi newid ers 2016-17 a chafwyd gostyngiad bychan yn nifer y staff cymwysedig, a hynny'n adlewyrchu swydd broffesiynol wag. Nid oes yr un o'r dangosyddion staffio wedi'u cyflawni, er bod perfformiad yn gyffredinol yn dal i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Nodir effaith problemau capasiti staff ar y gwasanaeth, gyda strwythur staffio newydd i'w weithredu yn 2018-19 a ddylai wella'r sefyllfa. Mae yma arweinyddiaeth â chymwysterau, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi'n gryf mewn datblygiad proffesiynol, gydag amrywiaeth eang o hyfforddiant ar gael. Mae mewnbwn gwirfoddolwyr, megis mewn blynyddoedd blaenorol, yn gysylltiedig â lleoliadau profiad gwaith, er bod model gwirfoddolwyr wrthi'n cael ei ddatblygu ar gyfer cael cymorth yn ystod oriau gwasanaeth llyfrgell nad ydynt yn rhai craidd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng yn 2017-18, ond mae'r gwariant fesul pen y boblogaeth yn uwch na'r canolrif. Nodir mai gostyngiad i gostau gweithredol y tu hwnt i staffio sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o'r gostyngiad hwn, gan adlewyrchu mwy o arbedion effeithlonrwydd yn gorfforaethol ac yn adrannol. Nid yw cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi newid, a dim ond pedair awr a gafwyd o gau llyfrgelloedd heb gynllunio gwneud hynny, o ganlyniad i fethiant yn y gwresogi yn ystod tywydd garw.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau roi gwybod sut mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Adroddodd Ynys Môn am ei gefnogaeth i ystod eang o agendâu, gan gynnwys dysgu, darllen a llythrennedd, datblygu sgiliau ac adfywio economaidd. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth a chyngor busnes, ac yn cyfrannu at gynhwysiant a llythrennedd digidol. Mae cefnogaeth gymunedol ar gyfer iechyd a lles yn ganolog i'r ddarpariaeth, gan gydweithio â phartneriaid a bod yn borth ar gyfer gwybodaeth iechyd a lles. Mae adnoddau Cymraeg a chymorth i grwpiau darllen Cymraeg yn cefnogi'r hunaniaeth ddiwylliannol leol.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, soniodd Ynys Môn am fabwysiadu Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau i gau dau o fannau gwasanaeth llyfrgell, gan gael ateb cymunedol ar gyfer Llyfrgell Cemaes, a datblygu modelau

cydweithredol ar gyfer dwy lyfrgell arall. Caiff strwythur staffio newydd hefyd ei weithredu o fis Gorffennaf 2018. Mae'r Strategaeth yn amlinellu gweledigaeth a model darparu sydd wedi'i fwriadu i ddiwallu anghenion cwsmeriaid a'r fframwaith safonau. Adroddir ar ganlyniadau dechreuol y mesurau hyn, a fydd yn arwain at newid sylweddol i gyd-destun gweithredol y gwasanaeth, yn ystod 2018-19.

## 6 Casgliad

Ar y cyfan, mae gwasanaeth llyfrgell Ynys Môn wedi cynnal ei berfformiad yn y flwyddyn gyntaf hon o'r chweched fframwaith, gan gael gwelliannau mewn rhai meysydd a gostyngiadau mewn eraill. Mae wedi cadw ffocws cryf ar wasanaethau plant a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg, a gwelir ethos defnyddiol gweithio mewn partneriaeth, gan gydweithio â gwasanaethau eraill yn y Gogledd a darparwyr lleol. Fodd bynnag, bydd gweithredu Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn arwain at ailffurfio sylweddol ar yr isadeiledd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ynddo, gyda newidiadau i fodel y ddarpariaeth mewn rhai llyfrgelloedd, ac i'r strwythur staffio. Cynlluniwyd y fframwaith darparu newydd hwn i ddiwallu anghenion cwsmeriaid ac yn hyn o beth bydd modd dechrau gweld llwyddiant y mesurau hyn, a pherfformiad o dan y fframwaith, yn 2018-19

